

Cyfarfod Chwarter

Bydd Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Pendref, Bangor am 7.00 o'r gloch, nos Fercher, Ebrill 29. Ceir anerchiad gan y Parchg Casi Jones, Clynnog.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fawrth, Ebrill 21: Cynhelir Pwyllgor Cymanfa'r Annibynwyr yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 26: Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Robert Morris, Penygroes.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth, Ebrill 21: Cynhelir Pwyllgor Cymanfa'r Annibynwyr yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 26: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

Nos Wener, Mai 1: CIC am 7.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Ebrill 26: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Ebrill 19

10.00 a.m. - Y Gweinidog (Oedfa Deulu)
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 26

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Mai 3

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

BETHLEHEM

Dydd Sul, Ebrill 26: Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir a, 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Ebrill 20: Bydd Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

Nos Wener, Ebrill 24: Cynhelir 'Dwylo Prysyr' am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Ebrill 26: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Gwener, Ebrill 24: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Ebrill 19

10.00 a.m. - Y Parchg Reuben Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Mr Richard Ll Jones

Ebrill 26

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mai 3

10.00 a.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 634: Dydd Sul, 19 Ebrill, 2015

Neges Nahum

Fyddai'r un gwleidydd yn meiddio dweud yr hyn a ddywedodd y proffwyd Nahum wrth bobl Ninefe. Fyddai neb yn debygol o bleidleisio drostynt pe byddent yn dweud rhywbeth o'r fath. Mae'r gwleidyddion am y gorau i'n perswadio mai ganddynt hwy y mae'r atebion i broblemau ein cymdeithas. Ac er i lawer ohonynt losgi eu bysedd trwy addo'r byd cyn hyn, maent yn dal i wneud addewidion mawr am yr hyn y byddant yn ei wneud os cânt eu hethol i San Steffan.

Dychmygwch yr ymateb pe byddai'r ymgeiswyr seneddol yn dweud wrth eu hetholwyr yr hyn a ddywedodd Nahum, 'Ni ellir lliniaru dy glwyf' (Nahum 3:19). Mae clwyf ein cymunedau yn ddwfn heddiw, a thasg y gwleidyddion yw mynd i'r afael â'r materion sy'n blino pobl er mwyn gwneud bywyd pawb ohonom yn well. Gwyddom fod llawer o'r addewidion a wneir yn wag ac yn annhebygol o gael eu cadw os daw'r blaid sy'n eu gwneud i rym. Ac eto, mi fyddem yn fwy tebygol o bleidleisio dros bobl yr addewidion gwag na thros rywun a fyddai'n cyhoeddi nad oes dim y gall neb ei wneud i wella ein stad. Na, fyddai'r un gwleidydd yn gwneud 'Ni ellir lliniaru dy glwyf' yn slogan etholiadol.

Ond nid geiriau gwleidydd oedd y rhain, wrth gwrs, ond geiriau proffwyd Duw. Yr oeddent, ac y maent o hyd, yn eiriau difrifol a dychrynlyd gan fod Nahum yn cyhoeddi nad oes gobaith i

ddinas Ninefe. Oherwydd ei drygioni a'r modd y bu'n gormesu cenedloedd eraill mae Ninefe a theyrnas Asyria i gael ei dymchwel. Does dim modd iddi osgoi hynny, ac 'ni ellir lliniaru dy glwyf'. Roedd Ninefe wedi cael ei chyfle, mae'n debyg, yn nyddiau Jona, dros ganrif yn gynharach, ond bellach mae ar ben arni.

Neges fawr yr Efengyl yw nad yw hi ar ben arnom ni ac y gellir lliniaru ein clwyf. Mae modd gwella clwyf ein pechod trwy'r hyn a wnaeth Iesu Grist ar Galfaria; mae modd gwella clwyf gwendid yr Eglwys trwy'r nerth sydd yn yr Ysbryd Glân; mae modd gwella clwyf ein hofnau trwy'r cysur a geir yn Nuw ein Tad nefol. Beth bynnag yw'r clwyf, a pha mor ddwfn bynnag ydyw, mae modd ei wella trwy Dduw pob gras. Oherwydd fel y dywed Nahum eto, 'Y mae'r Arglwydd yn dda - yn amddiffynfa yn nydd argyfwng; y mae'n adnabod y rhai sy'n ymddiried ynddo' (1:7).

A beth bynnag a wnawn o addewidion y gwleidyddion dros y pythefnos nesaf, gallwn ymddiried yn yr addewidion a rydd y proffwyd i ni. 'Y mae Duw yn dda.' Ac y mae yn 'amddiffynfa yn nydd argyfwng'. Gallwn ninnau yn hyderus ddweud hyn wrth bobl sy'n wynebu gwahanol anawsterau. Beth bynnag yr argyfwng, gallwn addo y bydd Duw yn amddiffynfa iddynt trwy'r cyfan. Mae angen ffydd i gredu hynny, ac mae angen ffydd i fentro ei ddweud wrth eraill.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul. Boed
bendith Duw ar ein haddoliad heddiw.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00
o'r gloch gan y Parchg Reuben Roberts,
Bontnewydd ac am 5.00 o'r gloch gan
Mr Richard Lloyd Jones, Bethel. Bydd
yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 10.00 a
5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am
10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00
o'r gloch gan y Parchg Geraint Hughes,
Pwllheli ac estynnwn groeso cynnes
iddo nôl i bulpud Carmel unwaith eto.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am
10.00 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr
oedfa am 2.00 o'r gloch gan Mr Dafydd
Iwan, Caethro; ac estynnwn groeso
cynnes iddo yntau

Cofion

Dymuniadau gorau i bawb sydd heb fod
yn dda ar hyn o bryd ac sy'n methu â bod
yn yr oedfaon.

Cymdeithas Llanberis

Aeth aelodau Cymdeithas Undebol
Llanberis i Bant Du, Penygroes nos
Fawrth diwethaf ar noson olaf eu tymor
presennol.

Cafwyd croeso cynnes iawn a chafwyd
gan y perchnogion hanes datblygu'r
winllan a'r berllan newydd yn Nyffryn
Nantlle.

Diolch yn fawr iawn i Miss Dilys Mai
Roberts am drefnu'r ymweliad, a diolch
iddi am ei gwaith yn trefnu cyfarfodydd
y Gymdeithas y tymor diwethaf hwn eto.

Swper y Gymdeithas

Cynhelir Swper Blynnyddol Cymdeithas
Undebol Deiniolen yng Nghlwb Golff
Caernarfon wythnos i nos yfory, nos
Lun, Ebrill 27.

Hwn fydd cyfarfod olaf y tymor, a'r gŵr
gwadd fydd Mr John Dilwyn Williams,
Penygroes.

Cymorth Cristnogol

Dyddiad Wythnos Cymorth Cristnogol
eleni yw Mai 10–16.

Os gall rhywrai helpu gyda'r casgliad yn
Llanberis eleni a wnewch chi ddweud
wrth y Gweinidog mor fuan â phosibl os
gwelwch yn dda. Mae angen rhagor o
bobl i helpu i gasglu o ddrws i ddrws er
mwyn i ni allu ymweld â phob rhan o'r
pentref. Ni lwyddwyd i wneud hynny'r
llynedd oherwydd prinder casglyddion.

Cwrs Plant yn y Bala

Bydd Penwythnos Plant yr Ofalaeth yng
Ngholeg y Bala eleni o nos Wener hyd
ddydd Sul, Mai 15–17. Mae'r cwrs hwn
ar gyfer plant 8 i 12 oed ac mae croeso
cynnes i'ch plentyn ddod iddo.

Cost y penwythnos fydd £60. Bwriedir
trefnu bws eleni eto i nôl a danfon y
criw i'r Bala. Mae'r plant sydd wedi
bod o'r blaen yn gwybod am yr hwyl a
geir ar y cyrsiau hyn, a gwn fod rhai'n
edrych ymlaen yn barod i fynd i'r Bala
eto.

Mae'n gyfle arbennig i'r plant ddysgu
am Iesu Grist trwy weithgareddau o bob
math, yn cynnwys gemau a gwaith crefft
a chanu a stori.

Os am ragor o fanylion cysylltwch â'r
Gweinidog. Mae ffurflenni ar gael i
archebu eich lle, ac mae angen gwneud
hynny erbyn dydd olaf Ebrill fan bellaf.

Pwyllgor Efe

Cynhaliwyd Pwyllgor Ymddiriedolwyr
Cynllun Efe yng Nghapel y Rhos,
Llanrug nos Lun diwethaf.

Ar ran yr ymddiriedolwyr, diolch yn
fawr iawn i bawb am eu cyfraniadau di-
weddar at gronfa Efe.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch echnos
dan ofal Andrew a'r Gweinidog. Diolch
i Andrew am drefnu'r noson.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Efe yn
'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15
o'r gloch fore Gwener, Ebrill 24. Mae
hwn yn gyfle i ni ddod ynghyd i weddio
dros waith Efe yn bennaf, ond hefyd
dros waith yr Ofalaeth.

Pwyllgor Cymanfa'r

Annibynwyr

Cynhelir Pwyllgor Cymanfa Annibyn-
wyr y cylch yn Capel Coch am 7.00 o'r
gloch, nos Fawrth yr wythnos hon, Ebrill
21.

'Dechreuadau'

Mae Pwyllgor Bugeiliol Cyfarfod
Chwarter yr Annibynwyr wedi trefnu
gweithgareddau mewn gwahanol rannau
o'r sir ar gyfer yr wythnosau nesaf.

Mae gwahoddiad i eglwysy'r Ofalaeth
hon i gyfres o gyfarfodydd a gynhelir
ym mis Mai dan arweiniad y Parchg
Casi Jones, Clynnog, Swyddog Cynnal
ac Adnoddau Undeb yr Annibynwyr yn
y Gogledd.

Bydd 4 sesiwn i drafod 'Pwy ydyn ni
fel eglwysy' a 'Lle rydyn ni'n mynd
heddiw'. Gwahoddir yr eglwysy i anfon
2 neu 3 aelod i'r cyfarfodydd hyn. Bydd
pob sesiwn yn awr o hyd ac yn cynnwys
trafod, myfyrio ar ddarnau o'r Beibl, a
meddwl am bethau ymarferol y gellir
gweithredu arnynt.

Bwriedir i'r aelodau hyn wedyn adrodd
am y cyfarfodydd wrth aelodau'r eglwys
gan rannu'r syniadau a'r awgrymiadau
gyda hwy dan arweiniad y Gweinidog.

Cynhelir y sesiwnau hyn ar brynawn
Mercher, rhwng 2.00 a 3.00 o'r goch., ar
y dyddiadau a ganlyn:
Mai 6, 13, 20; a Mai 27 neu Mehefin 3

**Bydd y cyfarfod cyntaf ym Methle-
hem Talybont am 2.00 o'r gloch,
ddydd Mercher, Mai 6.**

Fel dilyniant, bwriedir i Casi ymweld â'r
eglwysy unigol ar gyfer dau sesiwn arall,
sef Sesiwn 5: Edrych allan i'r gymuned
a Sesiwn 6: Creu cynllun i'r eglwys ar
gyfer y blynyddoedd nesaf.